



Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Lefel Aur

Ebrill 2021



Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru: Lefel Aur

Cynulleidfa

Sefydliadau sy'n darparu gwaith ieuentid yng Nghymru.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y safonau ansawdd, dangosyddion a disgrifyddion gradd ar gyfer Lefel Aur y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru, ac yn darparu gwybodaeth i sefydliadau ei defnyddio wrth gwblhau templed hunanasesu sydd ar gael gan y contractiwr. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd ag *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru: Cyflwyniad a chanllawiau*.

Camau i'w cymryd

Gall sefydliadau ddefnyddio'r Safonau Ansawdd Lefel Aur hyn fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu darpariaeth gwaith ieuentid neu i arwain y broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig er mwyn ymgeisio am Lefel Aur y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Ymgysylltu ag Ieuentid

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: gwaithieuentid@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/marc-ansawdd-gwaith-ieuentid

Dogfennau cysylltiedig

Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru: Cyflwyniad a chanllawiau (2021); *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru: Lefel Efydd* (2021); *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru: Lefel Arian* (2021); *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru: Canllawiau ar gyfer aseswyr* (2021).

Cynnwys

Cyflwyniad i Lefel Aur y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru	2
Safonau Ansawdd y Lefel Aur	4
Safon Ansawdd: 3.1 Cydnabod a dathlu cyflawniad a chynnydd pobl ifanc	7
Safon Ansawdd: 3.2 Gwybodaeth reoli	12
Safon Ansawdd: 3.3 Partneriaethau	16
Safon Ansawdd: 3.4 Adnoddau	21
Crynodeb a'r camau nesaf	26

Cyflwyniad i Lefel Aur y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Mae'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (y cyfeirir ato er mwyn hwyluso darllen y ddogfen hon fel 'y Marc Ansawdd') yn adnodd unigryw ar gyfer hunanasesu, cynllunio gwelliant ac ennill Marc Ansawdd ar gyfer gwaith ieuenctid. Mae wedi'i rannu'n dair lefel – Efydd, Arian ac Aur. Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i Lefel Aur y Marc Ansawdd.

Mae Lefel Aur y Marc Ansawdd yn canolbwyntio ar gryfderau gweithio mewn partneriaeth, defnyddio gwybodaeth reoli a defnyddio adnoddau'n greadigol i ateb anghenion pobl ifanc. Mae hefyd yn cydnabod cyflawniadau ac yn dathlu datblygiadau pobl ifanc, a'r effaith mae gwaith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid wedi'i chael ar daith bersonol eu pobl ifanc.

Mae llawer o sefydliadau'n darparu profiadau a chyfleoedd i bobl ifanc ag adnoddau cyfyngedig. Mae adnoddau mewn sefydliadau ieuenctid yn werthfawr felly ac mae'n rhaid eu defnyddio a'u canolbwyntio ar y blaenoriaethau uchaf ar unrhyw adeg benodol. Mae'r term 'adnoddau' yn gallu cyfeirio at nifer o wahanol fathau o asedau, e.e. staff, gwirfoddolwyr, sgiliau, offer, cyllid neu adeiladau. Ar y lefel hon, y ffocws yw pobl y sefydliad. Mae'r lefel hon yn holi sut mae sefydliad yn defnyddio'i gyllid i gynorthwyo'i staff a'i randdeiliaid, a ydynt yn dibynnu ar gyllid ar ei ben ei hun neu a oes ganddynt bartneriaethau rhagweithiol a chreadigol sy'n rhoi mynediad iddynt at adnodd neu sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio adnodd sy'n ateb anghenion pobl ifanc, p'un a yw'r sefydliad wedi manteision ar ddull newydd o weithio, o ganlyniad i adnodd cyfyngedig, neu a ydynt wedi datblygu toreth o adnoddau yn sgil datblygiad cymunedol llawn dychymyg.

Mae'r Lefel Aur yn caniatáu i sefydliadau ddangos cryfder eu gwaith partneriaeth a'u defnydd creadigol o adnodd i ateb anghenion pobl ifanc. Mae'r defnydd o adnoddau'n gysylltiedig yn aml â gwybodaeth ystadegol neu wybodaeth leol i ateb anghenion pobl ifanc sy'n dod i'r amlwg. Mae'r lefel hon yn archwilio sut mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ac effaith y ffordd caiff adnoddau eu defnyddio neu eu blaenoriaethu.

Mae diogelu gwybodaeth yn hanfodol ac mae'r Lefel Aur yn holi pa gamau mae sefydliad wedi'u cymryd i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu gan fframwaith polisi, ac yw'r wybodaeth hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol ai peidio. Mae'r lefel hon yn annog sefydliadau i roi enghreifftiau cadarnhaol o sut mae hyn wedi digwydd yn ymarferol, yn annog sefydliadau i ddathlu cyflawniad pobl ifanc a'u rolau rhagweithiol yn eu cymunedau, ac yn dangos sut mae gwirfoddolwyr gwaith ieuenctid, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid wedi creu cyfleoedd i'r bobl ifanc ac wedi ymgysylltu â nhw ar eu taith.

Mae [Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru](#) yn nodi gweledigaeth am ddyfodol lle:

“mae pobl yn deall gwerth gwaith ieuenctid, a lle mae llinellau atebolrwydd clir”.

Mae'r Lefel Aur yn cynnwys cydnabod cyflawniad a chynnydd pobl ifanc, gwybodaeth reoli, partneriaethau, ac adnoddau.

Safonau Ansawdd y Lefel Aur

Ym mhob un o lefelau'r Marc Ansawdd mae pedair safon ansawdd ac ym mhob safon ansawdd, mae nifer o 'ddangosyddion' cysylltiedig. Yn rhan o broses ymgeisio'r Marc Ansawdd, mae gofyn i sefydliadau ddarparu tystiolaeth i gefnogi pob dangosydd.

Gall sefydliadau ddefnyddio'r safonau ansawdd hyn fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu gwaith ieuenctid, eu cwricwlwm a'u darpariaeth. Gallant hefyd gyfrannu at neu weithredu fel canllaw yn y broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig er mwyn ymgeisio am y Marc Ansawdd.

Mae'r Safonau Ansawdd y Lefel Aur yn canolbwyntio ar wybodaeth reoli ac adnoddau o ran dangos costeffeithiolrwydd, ansawdd gwaith partneriaeth a dathlu cyflawniad a chynnydd pobl ifanc. Mae Safonau Ansawdd y Lefel Aur wedi'u rhestru yn y tabl isod.

Aur: Rheoli adnoddau i ateb anghenion pobl ifanc.	
Safon ansawdd	Dangosyddion
3.1 Cydnabod a dathlu cyflawniad a chynnydd pobl ifanc	<p>Mae'r sefydliad yn darparu mynediad i bobl ifanc at ystod o gyfleoedd i gofnodi ac achredu eu dysgu a'u cyflawniad.</p> <p>Mae'r sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso'u cyfleoedd dysgu, a'u heffaith ar bobl ifanc. Mae'n dathlu cyflawniadau pobl ifanc a'u cynnydd personol.</p> <p>Mae'r sefydliad yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a gall ddangos ei effaith ar wella canlyniadau.</p>

<p>3.2 Gwybodaeth reoli</p>	<p>Mae'r sefydliad yn glir ynghylch pa wybodaeth sydd ei hangen, ac mae systemau diogel yn eu lle i gasglu a lledaenu gwybodaeth reoli gywir.</p> <p>Mae'r sefydliad yn sicrhau bod ei weithlu, ar bob lefel, yn deall angenrheidrwydd darparu gwybodaeth reoli gywir ac amserol.</p> <p>Mae'r sefydliad yn defnyddio'i wybodaeth reoli i asesu a dangos effaith a gwerth am arian, ac i hyrwyddo gwelliant parhaus.</p>
<p>3.3 Partneriaethau</p>	<p>Mae gan y sefydliad gynllun neu strategaeth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth sy'n cynnwys ystod o gytundebau, e.e. contractau, memorandwm cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau lefel gwasanaeth.</p> <p>Mae gan y sefydliad swyddogaeth ddynodedig yn y gwaith cyffredinol o ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc a chyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i bobl ifanc.</p> <p>Mae'r sefydliad yn gwerthuso effaith ei waith partneriaeth ac yn gallu dangos sut mae gweithio mewn partneriaeth yn arwain at wella neu ymestyn ystod y gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc.</p>
<p>3.4 Adnoddau</p>	<p>Mae gan y sefydliad gynllun i ddefnyddio adnoddau yn gysylltiedig ag asesiad o anghenion pobl ifanc, blaenoriaethau sefydliadol, a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i bobl ifanc.</p> <p>Mae adnoddau'r sefydliad yn cael eu cynhyrchu a'u defnyddio i gefnogi pobl ifanc a'u hanghenion.</p> <p>Mae'r sefydliad yn asesu gwerth am arian a chosteffeithiolrwydd wrth ddefnyddio'i adnoddau yn rheolaidd.</p>

Mae gan bob un o'r safonau ansawdd 'ddangosyddion' cysylltiedig. Er mwyn helpu sefydliadau i ddatblygu hunanasesiad cywir, darperir disgrifyddion gradd ar gyfer pob dangosydd. Bwriedir i'r disgrifyddion gradd gynorthwyo sefydliadau i lunio barn am lefel eu perfformiad presennol. Mae'r disgrifyddion gradd wedi'u nodi isod.

- **Ymarfer da** – Mae perfformiad da at ei gilydd yn y maes hwn. Mae polisïau a chynlluniau'n gyfoes ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae trefniadau gweithio effeithiol sydd o fudd i bobl ifanc.
- **Angen rhywfaint o ddatblygu** – Mae polisïau a chynlluniau'n addas yn gyffredinol, er nad yw'r ymarfer bob amser yn gyson ac nid yw rhai pobl ifanc yn derbyn gwasanaeth o'r un ansawdd ag eraill. Mae rhai bylchau'n bodoli, ac mae'n fwriad gan y rheolwyr/arweinwyr fynd i'r afael â hwy.
- **Angen datblygiad sylweddol** – Nid yw polisïau'n cael eu deall yn eang na'u gweithredu'n gyson. Mae cynlluniau a threfniadau gweithio yn wan yn gyffredinol, gan effeithio'n andwyol ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc.

I fod yn gymwys ar gyfer Lefel Aur y Marc Ansawdd, mae'n rhaid i sefydliadau fod wedi cyflawni Lefel Arian y Marc Ansawdd ac nawr mae'n rhaid cwblhau hunanasesiad gyda phortffolio o dystiolaeth a chyfranogi mewn proses asesu allanol i ddangos bod gradd 'ymarfer da' wedi'i chyflawni ar gyfer pob dangosydd yn y Lefel Aur hon. I gyflawni'r lefel hon, bydd sefydliadau sydd eisoes wedi cyflawni Lefel Arian y Marc Ansawdd yn adeiladu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y lefel flaenorol er mwyn cyflawni'r Lefel Aur. Dylai sefydliadau sy'n ystyried ymgeisio am y Lefelau Arian ac Aur ar yr un pryd drafod yr opsiwn hwn gyda'r contractiwr.

Mae'r adrannau canlynol yn ymdrin â phob un o Safonau Ansawdd y Lefel Aur yn eu tro, gan nodi'r dangosyddion a'r disgrifyddion gradd ar gyfer pob un o'r safonau ansawdd ar y Lefel Aur hon. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth ynghylch pa dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer pob un o'r safonau ansawdd, gan gynnwys enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da a fydd yn helpu sefydliadau i farnu a darparu tystiolaeth o lefel eu perfformiad presennol neu ddatblygu hunanasesiad i baratoi ar gyfer ymgeisio am Lefel Aur y Marc Ansawdd.

Safon Ansawdd: 3.1 Cydnabod a dathlu cyflawniad a chynnydd pobl ifanc

Mae anghenion a buddiannau pobl ifanc at ei gilydd yn ffurfio sail sylfaenol pob math o waith ieuencid. Mae perthnasau effeithiol rhwng gweithwyr ieuencid a phobl ifanc, wedi'u seilio ar barch ac ymddiriedaeth, yn ffurfio sail proses barhaus o asesu a dadansoddi angen. Gallai cynnydd a chyflawniadau pobl ifanc gymryd llawer o flynyddoedd. Felly, mae dathlu llwyddiant pobl ifanc yn bwysig nid yn unig i'r person ifanc ac i'r sefydliad ond hefyd er mwyn helpu dangos effaith gwasanaethau gwaith ieuencid i eraill. Mae'r Marc Ansawdd yn ceisio sicrhau bod sefydliadau'n darparu modd i bobl ifanc fwynhau eu llwyddiant personol neu grŵp a hefyd sut gallant fynd â'r profiad dysgu gwerthfawr hwn i'w nodau a'u dyheadau bywyd yn y dyfodol.

Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos:

- cyfranogiad pobl ifanc mewn cyfleoedd dysgu achrededig a chofnodedig
- sut mae'r sefydliad yn monitro, yn dadansoddi ac yn gwella cyfleoedd dysgu achrededig a chofnodedig i bobl ifanc
- sut caiff cyflawniadau pobl ifanc eu dathlu
- gwell canlyniadau i bobl ifanc.

Yn y safon ansawdd hon, mae'r term 'cyflawniad' yn gallu cynnwys datblygu sgiliau personol, cymdeithasol ac ymarferol, ac achredu. Mae'r term 'cynnydd' yn disgrifio pobl ifanc yn gwella'u gwybodaeth a'u sgiliau a sut maent yn eu cymhwyso mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae sefydliadau'n debygol o fod ag amrywiaeth o ddulliau gwahanol ar gyfer cofnodi dysgu a chyflawniad pobl ifanc. Dylai'r rhain ddarparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i fesur ystod o ganlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol a gosod targedau ar gyfer gwella.

Disgrifyddion gradd

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.1 Cydnabod a dathlu cyflawniad a chynnydd pobl ifanc – Disgrifyddion gradd			
Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae'r sefydliad yn darparu mynediad i bobl ifanc at ystod o gyfleoedd i gofnodi ac achredu eu dysgu a'u cyflawniad.</p>	<p>Darperir ystod amrywiol o gyfleoedd dysgu a datblygu hygyrch i bobl ifanc.</p> <p>Defnyddir amrywiaeth o ffyrdd a dulliau o gynnwys pobl ifanc wrth gefnogi a/neu achredu eu dysgu, eu cyflawniad a'u cynnydd.</p> <p>Mae targedau wedi'u nodi ar gyfer y maes gwaith hwn a chyfeirir atynt yn y cynllun busnes/cyflwyno.</p> <p>Mae astudiaethau achos sy'n cydnabod taith gymdeithasol a/neu emosiynol pobl ifanc a'u dysgu.</p>	<p>Darperir ystod gyfyngedig o gyfleoedd dysgu a datblygu i bobl ifanc.</p> <p>Mae cynlluniau i wella ystod y dulliau a ddefnyddir i gofnodi ac achredu cyflawniad a chynnydd pobl ifanc.</p> <p>Mae targedau ar gyfer y maes gwaith hwn yn cael eu datblygu.</p>	<p>Prin yw'r cyfleoedd a ddarperir i bobl ifanc gofnodi a/neu achredu eu dysgu a'u cynnydd.</p> <p>Nid yw gweithdrefnau ar gyfer cynnydd a chyflawniad pobl ifanc yn cael eu cymhwyso'n gyson.</p> <p>Mae cynllun i wella'r maes gwaith hwn.</p>

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.1 Cydnabod a dathlu cyflawniad a chynnydd pobl ifanc – Disgrifyddion gradd

Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae'r sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso'u cyfleoedd dysgu, a'u heffaith ar bobl ifanc. Mae'n dathlu cyflawniadau pobl ifanc a'u cynnydd personol.</p>	<p>Mae'r sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso lefelau ymateb i gyfleoedd dysgu cofnodedig a/neu achrededig. Caiff canlyniadau monitro a gwerthuso eu defnyddio i lywio newid a gwelliant.</p> <p>Mae pobl ifanc yn cymryd cyfleoedd i gael eu dysgu wedi'i gofnodi a/neu ei achredu.</p>	<p>Mae'r sefydliad yn datblygu dull systemataidd o fonitro a gwerthuso lefelau ymateb i gyfleoedd dysgu cofnodedig a/neu achrededig.</p> <p>Mae enghreifftiau o arfer da o ran gwella lefelau ymateb pobl ifanc i gyfleoedd ar gyfer cofnodi a/neu achredu eu dysgu a'u cynnydd.</p>	<p>Nid oes system yn ei lle i fonitro, gwerthuso na gwella lefelau ymateb pobl ifanc i gyfleoedd i gofnodi a/neu achredu eu dysgu a'u cynnydd.</p>

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.1 Cydnabod a dathlu cyflawniad a chynnydd pobl ifanc – Disgrifyddion gradd

Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae'r sefydliad yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu ac yn gallu dangos ei effaith ar wella canlyniadau.</p>	<p>Mae pobl ifanc yn deall gwerth cael eu dysgu wedi'i gofnodi a/neu ei achredu.</p> <p>Caiff pobl ifanc eu hannog yn weithredol i fanteisio ar gyfleoedd i gofnodi a/neu achredu eu dysgu a'u cynnydd.</p> <p>Mae diwylliant sefydliadol o ddathlu dysgu, taith bersonol a chynnydd pobl ifanc.</p> <p>Mae'r sefydliad yn defnyddio gwybodaeth am ddysgu a chynnydd pobl ifanc i ddarparu tystiolaeth o'i effaith ar wella'u canlyniadau a'u gobeithion bywyd.</p>	<p>Mae enghreifftiau bod pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i fanteisio ar gyfleoedd i gofnodi a/neu achredu eu dysgu a'u cynnydd.</p> <p>Mae enghreifftiau bod dysgu a chynnydd pobl ifanc yn cael eu dathlu.</p> <p>Mae rhai enghreifftiau o ymarfer lle caiff gwybodaeth am ddysgu a chynnydd pobl ifanc ei defnyddio i ddangos effaith ar wella'u canlyniadau a'u gobeithion bywyd.</p>	<p>Mae'r sefydliad eto i ddatblygu dull systemataidd o annog pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gofnodi a/neu achredu eu dysgu a'u cynnydd.</p>

Enghreiffiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Ystod y cyfleoedd dysgu a datblygu mae'r sefydliad yn eu cynnig i gynorthwyo cyflawniad a chynnydd pobl ifanc.
- Sut mae'r sefydliad yn cynorthwyo pobl ifanc i ymgysylltu â chyfleoedd dysgu cofnodedig a/neu achrededig.
- Ystod o ddulliau tuag at gofnodi a, lle y bo'n briodol, achredu cyflawniad a dysgu pobl ifanc.
- Ystod yr adnoddau mae'r sefydliad yn eu defnyddio i werthuso, cofnodi a darparu dystiolaeth o ddysgu pobl ifanc.
- Adroddiadau monitro a gwerthuso'r sefydliad.
- Cynlluniau sesiynau, cynlluniau prosiect a gwerthusiadau.
- Portffolios, trafodaethau a gwerthusiadau pobl ifanc.
- Cyfraniad pobl ifanc tuag at ddatblygu a gwerthuso rhaglenni dysgu a gweithgareddau.
- Cynorthwyo pobl ifanc i gydnabod eu dysgu eu hunain ac ymgysylltu ag achredu.
- Sut mae pobl ifanc yn deall gwerth cyfleoedd dysgu cofnodedig a/neu achrededig.
- Sut mae cyfranogi mewn cyfleoedd dysgu cofnodedig a/neu achrededig yn cynorthwyo cynnydd pobl ifanc mewn agweddau eraill ar eu bywydau, e.e. cael mynediad at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
- Cyfleoedd datblygu'r gweithlu sy'n cynorthwyo cofnodi cynnydd pobl ifanc yn effeithiol.
- Sut mae'r sefydliad yn casglu ac yn dadansoddi data ar dueddiadau yn y lefelau ymateb i gyfleoedd dysgu achrededig a/neu gofnodedig.
- Data sy'n dangos gwelliant yn nifer y bobl ifanc sydd wedi ymgysylltu â chyfleoedd dysgu cofnodedig a/neu achrededig.
- Sut mae'r sefydliad yn defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth ar ddysgu a chynnydd pobl ifanc i ddangos ei effaith ar wella canlyniadau.
- Cyfeiriadau at osod a monitro targedau ar gyfer cofnodi ac achredu dysgu pobl ifanc yng nghynlluniau a strategaethau'r sefydliad.
- Sut mae'r sefydliad yn meincnodi lefelau ymateb i gyfleoedd dysgu cofnodedig a/neu achrededig.
- Sut mae'r sefydliad wedi gwella perfformiad mewn perthynas â chofnodi ac achredu dysgu a chyflawniad pobl ifanc.
- Sut mae'r sefydliad yn dathlu cyflawniad a chynnydd pobl ifanc, e.e. drwy gyflwyniadau neu ddigwyddiadau dathlu.
- Straeon yn y wasg ac astudiaethau achos yn amlygu cynnydd a chyflawniad pobl ifanc drwy eu hymwneud yn narpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad.
- Adroddiad i Archwiliad Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

Safon Ansawdd: 3.2 Gwybodaeth reoli

Mae'r safon ansawdd hon yn canolbwyntio ar sut mae gwybodaeth reoli, gan gynnwys data ystadegol, yn cael ei chasglu, ei lledaenu a'i defnyddio i ddatblygu cynlluniau, gosod targedau, rheoli perfformiad, ac asesu effeithiolrwydd, effaith a gwerth am arian yn gyffredinol. Dylai'r system gwybodaeth reoli ddarparu gwybodaeth reolaidd i'r gweithlu, partneriaid a rhanddeiliaid perthnasol eraill am berfformiad y sefydliad.

Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos:

- sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud am ba ddata a gwybodaeth sydd eu hangen er mwyn cynllunio, monitro a gwerthuso
- sut mae gwybodaeth am anghenion pobl ifanc yn cael ei chasglu, gan ddefnyddio ystod eang o ddulliau; sut mae'n cael ei dadansoddi a'i lledaenu; a sut mae'n cael ei defnyddio i ddatblygu cynlluniau a nodi targedau
- bod y gweithlu, ar bob lefel, yn deall pwysigrwydd casglu a dehongli gwybodaeth
- sut mae'r sefydliad yn defnyddio gwybodaeth reoli i asesu ei berfformiad a dangos effaith a gwerth am arian
- sut mae gwybodaeth reoli'n cael ei defnyddio i hyrwyddo gwelliant parhaus.

Disgrifyddion gradd

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.2 Gwybodaeth reoli – Disgrifyddion gradd			
Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
Mae'r sefydliad yn glir ynghylch pa wybodaeth sydd ei hangen, ac mae systemau diogel yn eu lle i gasglu a lledaenu gwybodaeth reoli gywir.	Mae'r sefydliad yn casglu data sy'n berthnasol i'w flaenoriaethau allweddol yn unol â deddfwriaeth diogelu data.	Mae'r wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio, monitro ac asesu effeithiolrwydd, effaith a gwerth am arian y sefydliad yn cael ei hadolygu.	Mae gwaith ar y gweill i nodi pa wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio, monitro ac asesu perfformiad y sefydliad.

	<p>Mae'r wybodaeth a gaiff ei chasglu gan y sefydliad yn cael ei chadw am resymau priodol, yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac mae dull storio'r wybodaeth yn cydymffurfio â safon gyfreithiol.</p> <p>Mae'r wybodaeth a gaiff ei chasglu gan y sefydliad yn cael ei defnyddio i gynllunio, monitro ac asesu ei weithgareddau a'u heffaith.</p> <p>Mae'r sefydliad yn darparu gwybodaeth i ddangos bod gweithgareddau'n darparu gwerth am arian.</p> <p>Mae dull sydd wedi'i gynllunio ac sy'n gyfreithlon tuag at gasglu a dadansoddi gwybodaeth reoli yn ei le.</p>	<p>Mae dull systemataidd o gasglu, dadansoddi a lledaenu gwybodaeth reoli'n cael ei ddefnyddio.</p>	
--	---	---	--

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.2 Gwybodaeth reoli – Disgrifyddion gradd

Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae'r sefydliad yn sicrhau bod ei weithlu, ar bob lefel, yn deall angenrheidrwydd darparu gwybodaeth reoli gywir ac amserol.</p>	<p>Mae gwybodaeth reoli gywir yn cael ei lledaenu fel mater o drefn i staff perthnasol a rhanddeiliaid.</p> <p>Mae gan y sefydliad systemau effeithiol ar gyfer rheoli data sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.</p> <p>Mae'r gweithlu'n deall pa wybodaeth i'w chasglu, sut i wneud hyn a pham mae'n bwysig.</p> <p>Caiff ffurflenni gwybodaeth reoli eu cwblhau'n gywir ac yn brydlon.</p> <p>Mae'r gweithlu'n defnyddio gwybodaeth reoli fel mater o drefn a hefyd yn myfyrio ar safbwyntiau a barn pobl ifanc i nodi anghenion pobl ifanc sy'n dod i'r amlwg ac i wella perfformiad, ansawdd ac effaith.</p>	<p>Mae'r gweithlu'n gwybod sut i gasglu gwybodaeth reoli gywir.</p> <p>Mae hyfforddiant i wella dull casglu a dadansoddi gwybodaeth reoli ar y gweill.</p> <p>Mae cywirdeb a phrydlondeb ffurflenni gwybodaeth reoli'n anghyson.</p> <p>Mae enghreifftiau o'r gweithlu'n defnyddio gwybodaeth reoli i wella perfformiad, ansawdd ac effaith.</p>	<p>Nid yw trefniadau'r sefydliad ar gyfer casglu a lledaenu gwybodaeth reoli'n gyson.</p> <p>Mae hyfforddiant i wella'r ffordd mae gwybodaeth reoli'n cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i lledaenu'n cael ei ddatblygu.</p> <p>Mae ambell enghraifft o'r gweithlu'n defnyddio gwybodaeth reoli i wella perfformiad, ansawdd ac effaith.</p>

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.2 Gwybodaeth reoli – Disgrifyddion gradd

Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae'r sefydliad yn defnyddio'i wybodaeth reoli i asesu a dangos effaith a gwerth am arian, ac i hyrwyddo gwelliant parhaus.</p>	<p>Mae gwybodaeth reoli'n darparu tystiolaeth o berfformiad, effaith a gwerth am arian y sefydliad yn gyffredinol.</p> <p>Mae gwybodaeth reoli'n cael ei defnyddio fel mater o drefn i hyrwyddo gwelliant parhaus.</p>	<p>Mae ystod yr wybodaeth reoli sy'n cael ei chasglu ar hyn o bryd yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn darparu tystiolaeth i ddangos perfformiad, effaith a gwerth am arian y sefydliad yn gyffredinol.</p> <p>Mae enghreifftiau bod gwybodaeth reoli'n cael ei defnyddio i hyrwyddo gwelliant.</p>	<p>Ychydig o dystiolaeth mae gwybodaeth reoli'n ei darparu o berfformiad, effaith a gwerth am arian y sefydliad.</p> <p>Prin yw'r dystiolaeth bod gwybodaeth reoli'n cael ei defnyddio i lywio cynllunio, asesu effaith neu gynorthwyo gwelliant.</p>

Enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- System(au) gwybodaeth reoli'r sefydliad neu drefniadau ar gyfer casglu a dadansoddi data a gwybodaeth.
- Sut mae'r sefydliad yn defnyddio gwybodaeth reoli i:
 - asesu anghenion pobl ifanc
 - datblygu strategaethau a chynlluniau
 - asesu ei berfformiad
 - gwella a newid ar lefel uned neu brosiect
 - asesu ei effaith a gwerth am arian.
- Trefniadau'r sefydliad ar gyfer casglu a lledaenu gwybodaeth reoli.
- Adroddiadau a ffurflenni ar gyfer cyllidwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill, e.e. cynghorwyr awdurdodau lleol, ymddiriedolwyr a phwyllgorau rheoli.
- Adroddiadau neu ffurflenni data i Lywodraeth Cymru.
- Gweithgareddau datblygu'r gweithlu i gynorthwyo casglu a choladu gwybodaeth reoli gywir.
- Sut mae systemau gwybodaeth reoli'n cael eu hadolygu.

Safon Ansawdd: 3.3 Partneriaethau

Mae [Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru](#) yn amlygu gwerth gweithio mewn partneriaethau agosach rhwng yr holl randdeiliaid a'r angen i atgyfnerthu cydweithredu arloesol yn enwedig rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol i ddarparu cyfleoedd gwaith ieuenctid o ansawdd uchel i bobl ifanc. Mae'n cydnabod bod gan waith ieuenctid rôl hanfodol wrth gyflwyno ystod ehangach o wasanaethau cymorth ieuenctid a bod gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig i wella mynediad pobl ifanc at ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau a'u profiadau ohonynt.

Mae'r safon ansawdd hon yn ceisio asesu sut mae gweithio mewn partneriaeth yn cael ei ddefnyddio i ateb anghenion pobl ifanc, a gwella ystod y gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael iddynt. Mae'n berthnasol i weithio mewn partneriaeth ar bob lefel, o bartneriaethau strategol i rai sy'n gweithredu mewn ardaloedd lleol bach.

Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos:

- sut mae gweithio mewn partneriaeth yn cael ei drefnu, e.e. drwy gytundebau lefel gwasanaeth a chontractau clir sy'n pennu'r nodau, allbynnau, canlyniadau, rolau a chyfrifoldebau disgwylidig
- sut mae'r gwaith partneriaeth yn cael ei fonitro a'i werthuso i sicrhau ei fod yn arwain at well canlyniadau i bobl ifanc
- sut mae gwasanaethau i bobl ifanc yn cael eu hymestyn neu eu gwella drwy waith partneriaeth.

Disgrifyddion gradd

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.3 Partneriaethau – Disgrifyddion gradd			
Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae gan y sefydliad gynllun neu strategaeth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth sy'n cynnwys ystod o gytundebau, e.e. contractau, memorandwm cyd-ddealltwriaeth neu gytundebau lefel gwasanaeth.</p>	<p>Mae'r sefydliad yn hyrwyddo, cynllunio a chynnal gweithio mewn partneriaeth yn weithredol.</p> <p>Mae cytundebau partneriaeth, cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.</p> <p>Mae cytundebau partneriaeth a chontractau'n pennu nodau, allbynnau, canlyniadau, rolau a chyfrifoldebau disgwylidig.</p> <p>Mae cytundebau partneriaeth yn rhoi blaenoriaeth ar sefydlu cyd-gyfrifoldebau ar gyfer diogelu pobl ifanc.</p>	<p>Mae'r sefydliad yn gweithio gyda phartneriaid ac mae cynlluniau yn eu lle i ffurfioli'r perthnasau hyn ar sail <i>ad hoc</i>.</p> <p>Yn anaml mae cytundebau partneriaeth, cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn pennu nodau, allbynnau, canlyniadau, rolau a chyfrifoldebau disgwylidig.</p>	<p>Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod dull trefnus a strwythuredig o weithio mewn partneriaeth.</p> <p>Nid yw cytundebau partneriaeth, cytundebau lefel gwasanaeth na chontractau'n pennu nodau, allbynnau, canlyniadau, rolau na chyfrifoldebau'n ddigonol.</p>

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.3 Partneriaethau – Disgrifyddion gradd

Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae gan y sefydliad swyddogaeth ddynodedig yn y gwaith cyffredinol o ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc a chyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i bobl ifanc.</p>	<p>Mae datganiad clir ynghylch sut mae'r sefydliad yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i bobl ifanc.</p> <p>Mae cyfraniad y sefydliad i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol drwy weithio mewn partneriaeth i bobl ifanc yn cael ei gydnabod a chyfeirir ato mewn strategaethau lleol neu genedlaethol.</p> <p>Mae gweithio mewn partneriaeth wedi'i wreiddio mewn ymarfer ac mae'n cynnwys arweinwyr y gymuned a rhanddeiliaid priodol eraill, e.e. swyddogion awdurdodau lleol, yr heddlu, iechyd cyhoeddus, tai.</p>	<p>Mae enghreifftiau o sut mae'r sefydliad yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i bobl ifanc.</p> <p>Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau bod cyfraniad y sefydliad i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i bobl ifanc yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau a strategaethau lleol.</p>	<p>Nid oes gan y sefydliad unrhyw rôl sydd wedi'i ffurfioli ac nid yw'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i bobl ifanc.</p>

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.3 Partneriaethau – Disgrifyddion gradd

Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae'r sefydliad yn gwerthuso effaith ei waith partneriaeth ac yn gallu dangos sut mae gweithio mewn partneriaeth yn arwain at wella neu ymestyn ystod y gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc.</p>	<p>Mae'r sefydliad yn gwerthuso ansawdd ac effaith gweithio mewn partneriaeth.</p> <p>Mae gweithio mewn partneriaeth yn gwella ac yn ymestyn ystod y gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc drwy adnodd neu nod cyffredin a rennir.</p> <p>Mae adroddiadau blynyddol yn dangos nerth gweithio mewn partneriaeth.</p> <p>Mae deunyddiau marchnata'n dangos bod partneriaid yn cael eu cynnwys mewn prosiectau neu weithgareddau.</p>	<p>Mae cynlluniau i werthuso sut mae partneriaethau'r sefydliad yn gwella.</p> <p>Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod syniadau partneriaeth wedi'u harchwilio i ymestyn ystod y gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc.</p>	<p>Mae partneriaethau'n bodoli mewn modd <i>ad hoc</i>.</p> <p>Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth y sefydliad yn gwella neu'n ymestyn ystod y gwasanaethau a ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc.</p>

Enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Cytundebau partneriaeth, cytundebau lefel gwasanaeth, contractau a grantiau.
- Mae cytundebau partneriaeth, cytundebau lefel gwasanaeth a contractau'n cynnwys rolau a chyfrifoldeb ar gyfer diogelu pobl ifanc.
- Cyfranogiad mewn rhwydweithiau lleol a chenedlaethol fel fforymau ymarferwyr, CWVYS (Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuencid Cymru) a Grŵp Prif Swyddogion Ieuencid Cymru.
- Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i bobl ifanc.
- Cyfraniad y sefydliad i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.
- Cynlluniau strategol a strategaethau lleol sy'n cyfeirio at y sefydliad.
- Cyfleoedd datblygu'r gweithlu sy'n cael eu cyflwyno gyda phartneriaid.
- Adroddiadau gwerthuso yn sgil prosiectau partneriaeth.
- Adborth gan bartneriaid.
- Sut mae gweithio mewn partneriaeth yn gwella canlyniadau pobl ifanc.
- Sut mae ystod ac ansawdd gwasanaethau a darpariaeth y sefydliad wedi gwella o ganlyniad i weithio mewn partneriaeth.

Safon Ansawdd: 3.4 Adnoddau

Mae'r safon ansawdd hon yn canolbwyntio ar sut mae'r sefydliad yn defnyddio adnoddau i ateb anghenion pobl ifanc, a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae pwyslais ar sut mae'r sefydliad yn caffael ac yn defnyddio adnoddau, a pha mor effeithlon ac effeithiol maent yn cael eu gweithredu.

Er mwyn dangos bod sefydliad yn darparu gwerth am arian, dylai grwpiau'r sector statudol a gwirfoddol ystyried y gwerth ychwanegol a gyflwynir gan ei wirfoddolwyr, defnydd cydweithredol o adeiladau, rhannu adnoddau a datblygu staff. Gall gwerth am arian gynnwys pa mor greadigol a dychmygus mae sefydliadau wedi bod i oresgyn rhwystrau darparu, sut maent wedi addasu technegau datrys problemau i gael y gorau o'u gweithlu, a gwerth eu darpariaeth i'r gymuned leol.

Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos:

- bod gan y sefydliad strategaeth ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithiol
- bod y defnydd o adnoddau'n gysylltiedig â dadansoddiad o anghenion pobl ifanc
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio i gyflawni blaenoriaethau sefydliadol, yn ogystal â blaenoriaethau lleol a, lle y bo'n briodol, rhai cenedlaethol i bobl ifanc
- sut mae defnydd ac effaith adnoddau'n cael eu monitro a'u gwerthuso.

Disgrifyddion gradd

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.4 Adnoddau – Disgrifyddion gradd			
Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae gan y sefydliad gynllun i ddefnyddio adnoddau yn gysylltiedig ag asesiad o anghenion pobl ifanc, blaenoriaethau sefydliadol, a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol i bobl ifanc.</p>	<p>Mae'r cynllun ar gyfer defnyddio adnoddau'n seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion pobl ifanc.</p> <p>Mae'r defnydd o adnoddau'n gysylltiedig â chyflawni blaenoriaethau sefydliadol, yn ogystal â blaenoriaethau lleol a, lle y bo'n briodol, rhai cenedlaethol i bobl ifanc.</p> <p>Mae llywodraethiant ariannol clir yn amlwg yn nefnydd y sefydliad o adnoddau.</p> <p>Mae gan y sefydliad broses neu bolisi yn ei le sy'n sicrhau bod ei wariant o fewn ffiniau derbyniol.</p>	<p>Mae'r defnydd o adnoddau'n gysylltiedig â chyflawni blaenoriaethau sefydliadol ac ateb anghenion pobl ifanc.</p> <p>Mae'r sefydliad yn datblygu strategaeth ar gyfer defnyddio adnoddau sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion pobl ifanc.</p> <p>Mae gwariant yn gyffredinol o fewn ffiniau derbyniol ac mae cynlluniau i wella llywodraethiant ariannol.</p>	<p>Ychydig o gysylltiadau sydd rhwng rheoli adnoddau, anghenion pobl ifanc a blaenoriaethau sefydliadol.</p> <p>Mae tystiolaeth o orwariant/tanwariant cyllidebol parhaus a phrin yw'r cyfle i fuddsoddi a/neu wella.</p>

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.4 Adnoddau – Disgrifyddion gradd

Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae adnoddau'r sefydliad yn cael eu cynhyrchu a'u defnyddio i gefnogi pobl ifanc a'u hanghenion.</p>	<p>Mae'r sefydliad yn monitro ac yn adolygu'r defnydd o adnoddau'n rheolaidd.</p> <p>Mae adnoddau ychwanegol yn cael eu cynhyrchu i gynorthwyo darpariaeth gwaith ieuencid.</p> <p>Mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn gweithgarwch codi arian.</p> <p>Mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth ddyrannu adnoddau.</p>	<p>Mae'r sefydliad yn gwella gweithdrefnau ar gyfer monitro ac adolygu'r defnydd o adnoddau.</p> <p>Mae enghreifftiau o'r sefydliad yn cynhyrchu adnoddau ychwanegol i gynorthwyo darpariaeth gwaith ieuencid.</p> <p>Mae'r sefydliad wedi datblygu cynlluniau i wella ymwneud pobl ifanc mewn gweithgarwch codi arian a dyrannu adnoddau.</p>	<p>Prin yw'r gweithgarwch i fonitro ac adolygu'r defnydd o adnoddau.</p> <p>Mae pobl ifanc eto i'w cynnwys mewn gweithgarwch codi arian a gwneud penderfyniadau am ddyrannu adnoddau.</p>

Safon Ansawdd Lefel Aur 3.4 Adnoddau – Disgrifyddion gradd

Dangosyddion	Ymarfer da	Angen rhywfaint o ddatblygu	Angen datblygiad sylweddol
<p>Mae'r sefydliad yn asesu gwerth am arian a chosteffeithiolrwydd wrth ddefnyddio'i adnoddau yn rheolaidd.</p>	<p>Mae'r sefydliad yn asesu gwerth am arian a chosteffeithiolrwydd yn rheolaidd gan ddefnyddio ystod o wybodaeth.</p> <p>Mae enghreifftiau bod arbedion maint yn cael eu cynhyrchu.</p> <p>Mae arbedion yn cael eu hailgyfeirio a'u defnyddio i wella gwasanaethau a chyfleusterau i bobl ifanc.</p>	<p>Mae enghreifftiau o sut mae'r sefydliad yn asesu gwerth am arian a chosteffeithiolrwydd.</p>	<p>Mae'r sefydliad eto i ystyried gwerth am arian a chosteffeithiolrwydd.</p>

Engbreiffiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Strategaeth adnoddau'r sefydliad.
- Cysylltiadau rhwng anghenion pobl ifanc a'r defnydd o adnoddau.
- Sut mae'r adnoddau'n cysylltu â blaenoriaethau'r sefydliad.
- Sut mae'r defnydd o adnoddau'n cyfrannu at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol i bobl ifanc.
- Rheolaeth y sefydliad o'r gyllideb.
- Sut mae'r sefydliad yn cynhyrchu incwm.
- Sut mae'r sefydliad yn cynnwys pobl ifanc mewn gweithgarwch codi arian.
- Sut mae defnydd y sefydliad o adnoddau'n cael ei fonitro a'i adolygu.
- Sut mae'r sefydliad yn asesu costeffeithiolrwydd a gwerth am arian.
- Sut mae meincnodi'n cael ei ddefnyddio i asesu gwerth am arian a chosteffeithiolrwydd.
- Sut mae'r sefydliad wedi cynhyrchu arbedion.
- Ymwneud pobl ifanc mewn penderfyniadau am adnoddau.
- Archwilio mewnol (o leiaf dwy flynedd).

Crynodeb a'r camau nesaf

Ar ôl darllen y ddogfen hon, dylai sefydliadau fod yn gyfarwydd bellach â'r safonau ansawdd, y dangosyddion a'r disgrifyddion gradd ar gyfer Lefel Aur y Marc Ansawdd. Gallai sefydliadau ddefnyddio'r Safonau Ansawdd Lefel Aur yma fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu darpariaeth gwaith ieuenctid neu i lywio'r broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig i ymgeisio am Lefel Aur y Marc Ansawdd, ar ôl bod yn llwyddiannus eisoes yn ennill Lefel Efydd y Marc Ansawdd fel isafswm. Tra'n gweithio drwy'r tair lefel, gallai rhai sefydliadau ddymuno ymgeisio am y Lefelau Arian ac Aur ar yr un pryd a dylent drafod yr opsiwn hwn gyda'r contractiwr.

Os ydych yn teimlo'ch bod yn barod i ymgysylltu â'r Marc Ansawdd, neu os hoffech wybod mwy, gallwch naill ai siarad â'r contractiwr presennol, neu gysylltu â'r Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid a fydd yn trosglwyddo'ch manylion ymlaen atynt. Gellir cysylltu â'r Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid drwy e-bostio gwaithieuenctid@llyw.cymru.